ABATY CYMER

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd.

Argraffiad

Argraffiadau:- Drafft Ymgynghoriad Cyhoeddus

Chambers Conservation Ltd
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif. 09787239
Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, HighStreet, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth.

1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut i Ddefnyddio'r Ddogfen Hon
- 1.2 Golwg Gyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Golwg Gyffredinol
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Deunyddiau a Manylion
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylebau ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.

8.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

10.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth.

1.0 Crynodeb o'r Dadansoddiad CGCB
2.0 Deall y Materion
2.1 Cyflwr
2.2 Adeiladau mewn Perygl
2.3Golwg Gyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
3.1 Asesiad o'r Ffiniau
3.2 Diogelwch Deddfwriaeth
3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
3.4 Cynaliadwyedd
3.5 Bioamrywiaeth
4.0 Ymgynghori

Atodiadau

A. Ffynonellau

Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

1.1.1. Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Ardaloedd cadwraeth addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain - *Cyflwyniad a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK***, y gellir ei lawr lwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.

1.1.2. Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK*** ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ymarferol ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg gyffredinol ar yr ardal gadwraeth

1.2.1 Mae ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffigwr 02) yn diffinio'n rhannol beth yw maint ardal yr astudiaeth. Ond fe gynhwyswyd yr ardaloedd agosaf o gwmpas (yn cynnwys yr ardaloedd tirwedd cyfagos) er mwyn deall y cefndir ehangach a phennu a fyddai'n briodol gwneud newidiadau i'r ffin.

Lleoliad a Gosodiad

1.2.2 Mae Abaty Cymer tua 1.5km i'r gogledd-orllewin o Ddolgellau. Mae ar lan ddwyreiniol Afon Mawddach, gyferbyn â phentref Llanelltyd.Mae Pont Llanelltyd, sydd o'r 18fedganrif, yn cysylltu'r abaty â'r pentref ac eglwys y plwyf. Erbyn hyn, dim ond cerddwyr sy'n cael defnyddio'r bont, ar ôl adeiladu ffordd osgoi fodern tua'r gorllewin ohoni.

1.2.3 Mae'r abaty'n agos at y cymer lle mae Afon Wnion yn cyfarfod Afon Mawddach ym mhen Aber Mawddach. Mae Aber Mawddach yn fasn llydan, rhwng y Rhinogydd tua'r gogledd a'r llethrau sy'n arwain at grib Cadair Idris tua'r de.

1.2.4 Mae'r Abaty'n sefyll ar lwyfandir isel, ddim ond tua 10m uwchben yr afon, ond gyda mynyddoedd garw'r Rhinogydd tua'r gorllewin yn estyn at uchder o 786m uwchben



01 Golygfa o "Dyffryn Llanelltyd ac Abaty Fanner " (Cymer) tua 1845, Richard Roberts (1789—1864) (Wikipedia Commons)

lefel y môr yn y Llethr. Yn agosach at yr abaty, mae'r Garn yn union uwchben Llanelltyd, gan gyrraedd uchder o 629m uwchben lefel y môr. Tua'r gogledd a'r dwyrain mae copaon is, sef Cynwch (326m) a Foel Offrwm (405m). Yn y dyffryn rhyngddynt mae Ystâd Nannau.

1.2.5 Dyddiad dynodi: 1992.



Existing Conservation Area
1:2000 @ A4

02 Cynllun o'r Ardal Gadwraeth (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Mae Abaty Cymer yn grŵp pwysig iawn o adeiladau mynachaidd Sistersaidd, sy'n adlewyrchu nawdd y llywodraethwyr cynhenid yn ogystal â chyfnod o newid sylweddol mewn diwinyddiaeth ac ymarfer yng Nghymru.

2.1.2 Mae Cymer yn parhau i fod o werth esthetig a hanesyddol uchel, oherwydd yr adfeilion sy'n parhau i sefyll, yr adeiladwaith cysylltiedig, a'r gosodiad. Gellir gweld y pwysigrwydd hwn mewn nifer o ffyrdd:

- Rôl y safle mewn cyfnod tymhestlog i Gristnogaeth yng Nghymru yn rhan gyntaf yr oesoedd canol, pan gyrhaeddodd yr urddau mynachaidd newydd.
- Ar ôl y diwygiad, fe drawsnewidiwyd y safle'n fferm i denantiaid, gan adlewyrchu'r newidiadau sylweddol mewn perchnogaeth tir gyda dyfodiad ystâdau mawrion fel Nannau a'r effeithiau diwylliannol o ganlyniad yn y cyfnod ar ôl yr oesoedd canol.
- Cysylltiadau rhwng eglwys yr abaty a'r adeiladwaith amaethyddol diweddarach, sy'n dangos mai rôl bennaf y safle ers y diwygiad oedd ar gyfer amaethyddiaeth.
- Cysylltiadau gyda chymuned Abaty Cwm-hir a'r Sistersiaid cynnar yng Nghymru.
- Mae'r abaty, fel grŵp gweledol gyda Phont Llanelltyd ac Eglwys Sant Illtyd gerllaw, yn rhoi darlun eglur o'r ardal yn ystod yr oesoedd canol (er mai yn ddiweddarach na hynny yr adeiladwyd y bont bresennol).
- Y berthynas gyda safleoedd rhestredig ehangach, yn cynnwys Crug Fferm Pentre, Castell Cymer, anheddiad gydag amddiffynfeydd sef Coed Pen-y-Bryn, ac eraill.

2.1.3 Mae gosodiad Abaty Cymer yn y dirwedd yn bwysig i ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth,ac mae rhai golygfeydd yn allweddol bwysig o ran y berthynas honno.Caiff y rhain eu henwi'n benodol ymhellach ymlaen yn y gwerthusiad, ond dyma enghreifftiau allweddol:

- Golygfeydd tuag at adfeilion yr abaty, gyda thir amaethyddol yn y blaendir.
- Golygfeydd tu mewn i'r brif rodfa, gyda'r gosodiad yn y dirwedd tu cefn.

03 Yr Arcêd ogleddol a'r gosodiad yn y dirwedd (2022).

04 Drws, Abaty Cymer. (2022).

- Cysylltiad y safle â rhai teithwyr ac artistiaid pictwrésg cynnar, a'u ffyrdd hwy o gyfleu trwy gyfrwng disgrifiadau, rhyddiaith a chelf.
- Golygfeydd sy'n gysylltiedig â Phont Llanelltyd.

2.1.4 Mae gan Abaty Cymer gymeriad pensaernïol cryf a gwahanol, i'w gweld yng nghyfanrwydd yr abaty, a gydag adeiladau o'r un cyfnod wedi goroesi trwy gael eu hailddefnyddio'n ddiweddarach. Mae'r elfennau pennaf yn cynnwys y rhain:

- Adfeilion yr eglwys sy'n parhau i sefyll, yn cynnwys nodweddion allweddol fel yr arcêd, y ffenestri yn y talcen dwyreiniol, sedilia a chilfachau beddi.
- Llety'r Abad (gyda ffabrig o'r 15fed ganrif yn parhau'n gyfan) a'r adeiladau cyfagos, oedd efallai'n ystafelloedd ar gyfer gwesteion yr abaty (16eg ganrif).

2.1.5 Mae gwerth cymunedol y safle hefyd yn gryf iawn, oherwydd ei gysylltiadau â'r tywysogion Cymreig cynhenid ac, yn ddiweddarach na hynny, â chynnydd mewn diddordeb yn y dirwedd a'r berthynas gyda strwythurau cynnar. Mae'r elfennau allweddol o hynny'n cynnwys:

- Perthynas yr urdd Sistersaidd gyda Theulu Brenhinol Gwynedd a'r newidiadau yn yr eglwys yn y 12fedganrif a'r 13egganrif.
- Rôl y fferm a'r safle fel man gwaith a rhan o ystâd Nannau ym mherchnogaeth y teulu Vaughan.
- Esblygiad y safle fel lle i ymwelwyr lleol ac yn denu twristiaid pictwrésg o'r 18fed ganrif ymlaen.

2.1.6 Mae Abaty Cymer hefyd yn werthfawr o ran tystiolaeth archeolegol, gyda'r posiblrwydd o archeoleg danddaearol a allai wella dealltwriaeth o'r safle. Mae'r elfennau o hynny'n cynnwys:

- Posibilrwydd o ddeall faint o ben dwyreiniol yr eglwys a gwblhawyd cyn yr ataliwyd y gwaith.
- Efallai y bu mynwent mynachaidd yn y cae tua'r dwyrain.[1]

05 Golygfa gyffredinol o adfeilion yr abaty, gyda llethrau tu cefn. (2022)

06 Eglwys yr Abaty a Llety'r Abad (Tŷ Fanner) (2002)

[1]Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 923 (Evans, R & Davidson A), Cymer, Drafft o Arfarniad Ardal Gadwraeth, 2011, tud.9.

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Cynhanes

3.1.1 Mae hanes Abaty Cymer wedi ei gofnodi'n helaeth yn barod, a felly crynodeb o'r cefndir a geir isod er mwyn sefydlu'r cyd-destun.

3.1.2 Mae tystiolaeth o weithgaredd pobl yn y cyfnod cynhanes ar hyd afon Mawddach, a chafwyd bwyeill cerrig Neolithig, yn cynnwys rhai tua'r gogledd o afon Wnion ger Pandy'r Odyn.[2]

3.1.3 Mae safleoedd Defodol ac Angladdol, fel Crug Fferm Pentre[3] sydd ddim ond tua 350m i'r de o Abaty Cymer,yn amlwg iawn yn ardal Dolgellau. Mae'n dystiolaeth o weithgaredd sylweddol yn ystod Oes yr Efydd Cynnar. Fodd bynnag, deellir y gellir olrhain y dystiolaeth gynharaf o weithgaredd dynol yn ôl i tua'r pedwerydd mileniwm Cyn Crist.[4]

3.1.4 Mae clystyrau o aneddiadau domestig o'r cyfnod cynhanes diweddar ar yr ucheldir o gwmpas Dolgellau, yn ogystal â strwythurau amddiffynnol fel Coed Pen-y-Bryn[5] a Moel Offrwm[6], sydd ychydig tua'r dwyrain o Abaty Cymer.

3.1.5 Mae'n debyg y bu anheddiad yn rhannau isaf y dyffryn, ac y cuddiwyd hynny gan amaethyddiaeth neu ddatblygiad diweddarach, gan y byddai wedi bod yn dir amaethyddol gwerthfawr. Hefyd mae tystiolaeth eang o anheddiad yn y cyfnod cyn yr oesoedd canol.

3.1.6 Er bod lonydd a safleoedd milwrol (yn cynnwys caer ym Mrithdir) yn bodoli, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o anheddiad Rhufeinig ar y lefelau is. Yn uwch i fyny na'r Abaty mae Gwersyll Moel Offrwm, ac yno gwelir tystiolaeth o weithgaredd yn ystod y cyfnod Rhufeinig.

Canoloesol

3.1.7 Roedd cyfnod o deyrnasiad gan y llywodraethwyr Cymreig cynhenid yn y cyfnod rhwng dyfodiad y Normaniaid ac wedyn Edward I. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu ad-drefnu eglwysig sylweddol a sefydlu cysylltiadau ag urddau oedd yn bodoli'n barod.[7]

3.1.8 Roedd y Sistersiaid wedi cyrraedd Cymru yn 1131, gan sefydlu Abaty Tyndyrn, ac roedd gan y Sistersiaid cynnar yng Nghymru gysylltiadau â

07 Cox, D. o Hanes y Brutaniaid a'r Cymry, Gweirydd ap Rhys, 1886. Y darlun gwreiddiol mae'n debyg o tua 1850 o Wanderings in North Wales, Roscoe (Wikimedia Commons).



08 Ysgythriad o Cymer (Cumner), 1784. Trwy garedigrwydd Photography.Wales.

[2] https://www.archwilio.org.uk/arch/query/page.php?watprn=GAT4122&dbname=gat&tbname=core&sessid=CHI2t5x7pp5&queryid=Q684001001646141440
[3] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=1149
[4] Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 1030 (Evans, R & Davidson A), Pandy'r Odyn, Drafft o Arfarniad Ardal Gadwraeth, 2012.
[5] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=926
[6] https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=2457
[7] https://www.monasticwales.org/showarticle.php?func=showarticle&articleID=2

diwygwyr ar y cyfandir. Mae'n ymddangos bod y llywodraethwyr Cymreig cynhenid yn hoffi nad oedd gan y Sistersiaid gysylltiadau â'r Normaniaid, a'u bod yn gofalu amdanynt eu hunain. Daethant yn fwy sicr eu lle ar ôl i Rhys ap Gruffudd, Brenin y Deheubarth, ddod yn noddwr i Abaty Ystrad Fflur yn 1165.

3.1.9 Yn ail hanner y 12fed ganrif, roedd Gruffudd ap Cynan a'i frawd Maredudd yn arglwyddi Meirionnydd ac Ardudwy. Daeth y mynachod o Abaty Cwm-hir i Gymer yn 1198 o dan nawdd Gruffudd. Roedd Cwm-hir yn 'ferch' sefydliad i'r un yn Hendy-gwyn, Sir Gaerfyrddin (Dyfed).8

3.1.10 Gallodd Gruffudd roi rhywfaint o dir i'r Sistersiaid yn 1198. Cafodd hynny ei gadarnhau mewn siarter yn 1209 gan Llywelyn ap Iorwerth, Tywysog Gwynedd. Er bod eu prif diroedd yn agos at yr Abaty, roedd y gymuned hefyd yn dal tir ar dir uwch, yn ogystal â rhai mwy gwerthfawr yn Llŷn, sef yn Llanegryn a Neigwl. Rhoddwyd y rheiny gan Maredudd pan oedd yn Arglwydd Llŷn am gyfnod byr yn 1200-01.9Mae hefyd sôn eu bod yn ymwneud â mwyngloddio a gwaith metel yn ogystal â darparu ceffylau i Llywelyn.

3.1.11 Parhaoedd y cysylltiadau cryf gyda thywysogion Cymru, a thystiolaeth o hynny yw y llosgwyd yr Abaty yn ystod ymgyrch ymosodol Harri III yn 1241, ac y cymerwyd eiddo'n perthyn i Llywelyn ap Gruffudd o'r Abaty yn 1282.10

3.1.12 Ni fu'r abaty yn un cyfoethog, ac aeth yn llai cyfoethog fyth ar ôl rhyfeloedd y 13eg ganrif. Yn 1291 dim ond £28 8s 3d oedd incwm blynyddol yr abaty, ac erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg dim ond pump o fynachod oedd yng Nghymer. Erbyn adeg y diddymu yn tua 1537 mae'n bosibl mai dim ond Abad ac un mynach oedd yno.11

16eg Ganrif Y Datgysylltia

3.1.13 Ar 20fed Mai 1538 rhoddwyd abatir a degymau Cymer i John Powes, oedd yn was i'r Teulu Brenhinol. Mae'n ymddangos i'r Fanner ddod yn ganolbwynt yr ystâd a chael ei newid i fod yn dŷ, ac efallai bod yr ysgubor tua'r gorllewin yn deillio o'r adeg honno, er iddi gael ei newid a'i hestyn yn ddiweddarach.

3.1.14 Erbyn canol y 17eg ganrif, roedd Tŷ Fanner yn rhan o Ystâd Nannau ac ym meddiant teulu Vaughan o Nannau a Hengwrt. Erbyn hyn, roedd y fferm yn weddol fawr, yn estyn tua'r de hyd at y bont a thua'r dwyrain i gyfeiriad Hengwrt.

09 Baker, Samuel 'Cymmer Abbey' tua 1880. Noder y defnyddir yr ystlys ogleddol ar gyfer gweithgaredd amaethyddol. (Wikimedia Commons).

10 Delwedd stereosgop o'r tu mewn, tua diwedd 1880. Llun trwy garedigrwydd Photogaphy Wales

[8] http://whitlandabbey.wales/history/
[9] Williams, David, H. (1981) The Cistercians in West Wales: 1 Cymer Abbey 1198-1536/7, ArchaeologiaCambrensis, 130 tud. 38.
[10] Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd,* tud.633.
[11] Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 923 (Evans, R & Davidson A), Cymer, Drafft o Arfarniad Ardal Gadwraeth, 2011, tud.6.

18fed a 19eg Ganrif Twristiaeth pictwrésg

3.1.15 Tuag at ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif, daeth twristiaeth pictwrésg ag ymwelwyr a diddordeb newydd yn adfeilion yr abaty. Cafodd nifer fawr o wahanol baentiadau, a lithograffau ohonynt eu creu, yn ogystal â disgrifiadau gwerthfawr gan deithwyr pictwrésg. Credir mai yn ystod y cyfnod hwn yr adeiladwyd y Bont Llanelltyd bresennol (y cymerir ei bod yn ailgread o bont gynharach).

3.1.16 Fe ysgrifennodd Thomas Pennant yn yr 1770au, 'Part of the church is still to be seen and shows its ancient grandeur. At the east end are three lofty but very narrow windows and over them three lesser, mantled in a great and gloomy thicket of ivy. The great hall and part of the abbot's lodgings now form a farmhouse'.[12]

20fed ganrif Gofal Gwladwriaeth hol

3.1.17 Fe nododd Roscoe yn 1853 *'the east side is in the best state of preservation….I observed, also, some rather minute gothic pillars and arches against the south wall and an aperture, in which probably was preserved the holy water'*.[13]

3.1.18 Yn 1930 fe gymerodd yr Office of Works gyfrifoldeb am yr abaty ac erbyn hyn mae yng ngofal Cadw, a etifeddodd y cyfrifoldeb. Roedd wedi parhau'n rhan o ystâd Nannau hyd at yr adeg dechreuwyd gwasgaru'r ystâd honno a'i gwerthu. Mae'r Fanner yn parhau'n fferm weithredol, a bu safle carafanau bychan yn gweithredu ers yr 1960au tua'r gogledd - ddwyrain o'r safle.

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn

4.1.1 Gellir rhannu ardal gadwraeth Abaty Cymer yn bedair elfen ar wahân.

4.1.2 Yr ardal gyntaf yw'r elfennau a gymerwyd i ofal y wladwriaeth yn 1930, yn cynnwys adfeilion y prif abaty. Dangosir terfynau'r ardal hon gan wrychoedd a ffensys terfyn, ac mae glaswellt oddi amgylch yr adfeilion.

4.1.3 Tua'r gorllewin, Tŷ Fanner, oedd gynt yn llety i'r abad ac wedyn yn ffermdy. Mae adeiladau pellach tua'r de, sy'n rhannol o'r cyfnod cyn y diwygiad, ac wedi'u newid yn ddiweddar i fod yn llety gwyliau.[14]



11 Cynllun Dyddio, Abaty Cymer (Cadw).

12 Golygfa gan S & N Buck (1742) LIGC trwy Wikipedia Commons.

[12] Pennant, T. (1781), A *Tour in Wales, p.98*
[13] Roscoe, T. (1853), Wanderings and Excursions in North Wales, p.226
[14] http://www.vannercottages.co.uk

4.1.4 Tua'r dwyrain o'r abaty mae adeiladau fferm eraill, wedi'u hadeiladu o garreg ac yn cynnwys ysgubor ac ysgubor ŷd, y credir eu bod yn deillio o'r 18fed ganrif, ac adeiladau fferm metel o gyfnod diweddarach. Tua'r de mae cae agored, a'r safle carafanau gerllaw.

4.1.5 Craidd y safle abaty hanesyddol yw'r eglwys, o hanner cyntaf y 13eg ganrif, gyda thŵr mwy elfennol o tua 1350 i'r gorllewin o hynny. Mae gweddillion yr eglwys yn dangos corff eglwys gydag ystlysau, a gwtogwyd yn y pen dwyreiniol gan y talcen presennol gan na chwblhawyd y groesfan, aleau croes, a'r côr a fwriadwyd.

4.1.6 Tu draw i'r ardal gadwraeth, mae cae tua'r dwyrain a adnabyddir fel Cae Fonwent ar fapiau ystâd Nannau o'r 18fed ganrif, y credir oedd efallai'n fynwent fynachaidd, gyda pherllan yn y cae tua'r gogledd.[15]

4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 Mae nifer o olygfeydd allweddol tu mewn i'r ardal gadwraeth sy'n dangos naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref gan ganiatáu gwerthfawrogiad o nodweddion penodol neu strwythurau allweddol, neu'n rhoi dealltwriaeth iawn o'i ddatblygiad yn y dirwedd ehangach. Mae golygfeydd eraill yn rhai pwysig lle ceir cipolwg, rhwng adeiladau neu tuag at nodweddion allweddol, sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth neu gymeriad yr ardal.

4.2.2 Mae golygfeydd naill a'i statig (golygfa i gyfeiriad penodol) neu'n ddynamig, yn cynnwys beth ellir ei weld o fan penodol.

4.2.3 Mae'r golygfeydd fel a ganlyn (gweler Ffigwr 15):

A Golygfa ddynamig tuag at yr abaty oddi wrth y giatiau ar y fynedfa i'r maes carafanau.

B Golygfeydd lle ceir cipolwg oddi wrth y ffordd fechan uwchben yr abaty, ar draws y cae.

C Golygfeydd dynamig tuag at lety'r Abad/y Ffermdy a'r adeiladau cyfagos.

[15]Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 923 (Evans, R & Davidson A), Cymer, Drafft o Arfarniad Ardal Gadwraeth, 2011, tud.9.

13 Y Ffreutur, a adeiladwyd dros gwrs dŵr, gan edrych tua'r gorllewin (2022).

14 Bwâu o'r 13eg ganrif gyda'r ystlys ogleddol y tu hwnt (2002).

D Golygfa ddynamig o'r abaty o gornel dde-orllewinol yr ardal gofrestredig.

E Golygfa tua'r gorllewin ar hyd y cwrs dŵr, oddi wrth y ffreutur.

F Golygfa tua'r dwyrain ar hyd y cwrs dŵr, o'r ffreutur tuag at y beudy.

G Golygfa ddynamig gan edrych oddi wrth y clwysty tuag at yr abaty.

H Golygfa ddynamig gan edrych oddi wrth y clwysty tuag at y tŵr, Tŷ Fanner ac adeiladau cysylltiedig, gyda bryniau tu cefn.

J Golygfa tuag at sedilia yn y wal ddeheuol.

K Golygfa hir i lawr corff yr eglwys tuag at y talcen dwyreiniol.

L Golygfa ddynamig tuag at yr ystlys ogleddol trwy fwâu sy'n parhau i sefyll.

M Golygfa o gyfeiriad yr ystlys ogleddol a thrwodd i mewn i gorff yr eglwys.

4.3 Mannau Gleision a Choed

4.3.1 Cefndir gwledig sydd gan Abaty Cymer, gyda'r ffordd i ddod tuag ati o bob cyfeiriad wedi'i diffinio gan fannau gleision anffurfiol, gyda choed sydd erbyn hyn yn gwahanu'r safle (yn weledol) oddi wrth lan Afon Mawddach.

4.3.2 Mae'r cae tua'r de yn arbennig o bwysig wrth ddynesu at y safle, gan ei fod yn darparu cefndir uniongyrchol ac yn gwahanu oddi wrth y maes carafanau a'r mannau cysylltiedig.

4.3.3 Mae'r caeau a'r llethrau coediog tu hwnt yn gefndir pwysig i'r golygfeydd tua'r dwyrain, lle gwelir yr adfeilion yn gefndir iddynt. Mae'n debyg y byddai'r rhai tua'r dwyrain a'r gogledd yn fynwent a pherllan mynachaidd.

4.3.4 Dangosir yn Ffigwr 16 lle mae'r coed neu grwpiau o goed arbennig (yn ychwanegol at y rhai wedi'u dynodi mewn lle arall). Maen nhw'n cynnwys:

- Coed ar hyd lan Afon Mawddach tua'r gorllewin.
- Coeden (ywen) arbennig rhwng yr abaty a'r adeiladau fferm tua'r dwyrain.



Key Views
1:2000 @ A4



Trees
1:2000 @ A4

16 Coed Unigol Arwyddocaola Grwpiau o Goed Arwyddocaol (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

5.0 Cymeriad

5.1 Golwg gyffredinol

5.1.1 Gwledig yw cymeriad y safle yn anad dim. Mae'r ffordd o ddynesu ato oddi wrth Bont Llanelltyd yn bwysig ac yn adlewyrchu'r profiad o ddynesu at yr abaty o'r pentref ers y blynyddoedd cynnar.

5.1.2 Mae'r safle carafanau tua'r de-ddwyrain o'r safle yn effeithio ar y profiad o ddynesu o'r cyfeiriad hwn. Mae'r safle carafanau'n bodoli ers yr 1950au ac mae elfennau fel y ffensys a'r adeiladau cynnal oll wedi effeithio ar gefndir yr abaty, felly hefyd y newid o fod yn safle i garafanau teithiol i un ar gyfer rhai statig yn bennaf.

5.1.3 Mae'r caeadle gyda'i adfeilion sy'n parhau i sefyll wedi cadw'r naws pictwrésg a ddenodd ymwelwyr yn y 18fed ganrif, a gellir hyd heddiw ei weld mewn cefndir tirwedd da.

5.1.4 Mae'r tir oddi amgylch yr abaty wedi cael ei ffermio ers canrifoedd ac mae'r cyswllt amaethyddol yn bwysig iawn i gymeriad gosodiad yr abaty, hyd yn oed gydag adeiladau diweddarach i'w gweld tua'r dwyrain.

5.1.5 Tu mewn i'r adfeilion, mae'r darnau o fanylion yn rhan hanfodol o'r cymeriad, manylion sy'n cynnwys y sedilia, golygfeydd trwy ffenestr y talcen dwyreiniol, y piscina, ac arcêd i'r ystlys ogleddol.

5.1.6 Mae'r gwrych uchel wedi achosi datgysylltiad rhwng llety'r abad a'r abaty, ond mae wedi bod yn bresennol ers yr 1930au (a gellir ei weld mewn golygfeydd o'r awyr tua 1948).

5.1.7 Oddi amgylch Tŷ Fanner mae'r cefndir ar hyn o bryd yn agored a gyda graean ar wyneb y ddaear, lle'r oedd gerddi neu ddefnydd amaethyddol yn gynharach.

5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Gellir disgrifio'r cymeriad pensaernïol mewn tair rhan, sef adfeilion yr abaty, yr adeiladau cysylltiedig tua'r gorllewin (Tŷ Fanner a'r bythynnod gwyliau, Tŷ Bwtri a Hen Dŷ), a'r adeiladau fferm tua'r dwyrain.

5.2.2 Mae adfeilion yr abaty'n cynnwys hynny o weddillion yr eglwys sy'n parhau i sefyll, a sylfeini'r clwysty a'r ffreutur tua'r de.

17 Tuag at adfeilion yr abaty a Tŷ Fanner o'r rhodfa (2022)

18 Y sedilia a'r porth i'r dde (2022)

5.2.3 Mae corff yr eglwys tua 30m o hyd, gyda muriau'r ochrau wedi goroesi'n rhannol. Tua'r gogledd mae arcêd o dri bae. Efallai unwaith fod un cyfatebol tua'r de, ond does dim i'w weld wedi goroesi uwchben y ddaear. Mae gan y talcen dwyreiniol dair ffenestr bigfain mewn arddull sy'n gyson gydag adeiladu rhwng 1200-40.16Mae gan y talcen drefn o uniad fertigol, sy'n awgrymu bwriad gwreiddiol i gael croesfan, aleau croes a chôr.

5.2.4 Mewn golygfeydd cynnar (gweler Ffigyrau 07, 08 a 12) gwelir ffenestri uwchben y rhai presennol yn y talcen dwyreiniol, a chyfeiriwyd hefyd atynt gan Thomas Pennant (gweler rhan 3). Cafodd uchder y talcen ei ostwng ers y 19eg ganrif.

5.2.5 Yn y mur deheuol mae sedilia gyda thri bae, gyda bwâu tywodfaen, pedestalau ac un golofn. Mae'r tywodfaen wedi'i hindreulio gryn dipyn erbyn hyn. Gerllaw mae beth allai fod yn gilfach bedd, a piscina. Yn agos at y fan honno mae drws bwaog, a bu gwaith trwsio sylweddol trwy roi cerrig newydd i mewn ar y pen. Mae cilfach arall yn y mur gogledd-orllewinol, eto efallai ar gyfer bedd.

5.2.6 Mae golygfeydd pwysig tuag at allan oddi wrth yr abaty, trwy'r drws deheuol tuag at y tir amaeth tu hwnt ac, yn unol â'r cefndir, trwy'r rhannau coll o'r mur.

5.2.7 Mae'r ystlys ogleddol yn sefyll hyd at uchder o tua dau fetr mewn mannau, a dim ond sylfeini'r ystlys ddeheuol sydd i'w gweld erbyn hyn. Mae arcêd o dri bwa'n cysylltu'r ystlys ogleddol â'r corff, a'r bwâu'n rhai tal gyda siamffrau dwbl, ar bierau wyth ochrog.

5.2.8 Mae'n debyg y cafodd y tŵr, sydd o ganol y 14eg ganrif, ei ychwanegu ar ôl rhoi'r gorau i'r gwaith adeiladu tua'r dwyrain. Adeiladwaith cyntefig sydd iddo, a dim ond ychydig o fanylion, ffenestri pigfain a grisiau mewn cornel (tua'r de-orllewin), gyda'r muriau allanol a'r bwtres a berthynai iddynt wedi disgyn.

5.2.9 Tua'r de, dim ond ar ffurf muriau ar lefel y ddaear neu sylfeini y gellir gweld yr ystlys, y clwysty a'r ffreutur.

5.2.10 Tua'r gorllewin mae Tŷ Fanner a'r bythynnod gwyliau. Mae Tŷ Fanner yn dŷ neuadd o gyfnod olaf yr oesoedd canol (yn ddiweddar yn y 15fed ganrif, mae'n debyg) a chymerir mai yma roedd llety'r abad. Cafodd ei newid lawer erbyn hyn, ond mae sôn ei fod wedi cadw trawstiau croes gyda chleddyfau bwaog a thrawstiau talcen tu mewn iddo.[17] Mae adeiladau diweddarach (16eg ganrif) yn estyn allan tua'r gorllewin.

19 Talcen dwyreiniol (2022)

20 Golygfa gyffredinol o'r de-orllewin, y cyd-destun gwledig. (2022).

[16]Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd, tud.*.633.

[17]Cafodd y to ei ddyddio i tua.1441. *The Buildings of Wales: Gwynedd, tud*.635.

5.2.11 Ar y llawr cyntaf, mae ffenestri dormer sy'n llawer diweddarach (tua1900), ond mae'r ffenestri ar y llawr daear o gryn oed, felly hefyd y drws gyda'i estyll llydan,gyda'r portsh modern. Tua'r gogledd mae sied fodern fawr, sy'n niweidiol i'r gosodiad yn gyffredinol.

5.2.12 O ran y bythynnod gwyliau, mae bloc sgwâr (Tŷ Bwtri fel y gelwir ef y dyddiau hyn), sydd efallai'n deillio o'r 16eg ganrif (ac oedd efallai cyn yr ad-drefnu yn llety i westeion neu'n borthdy). Mae'r adeiladau gogleddol (a elwir yn Hen Dŷ y dyddiau hyn) o gymeriad yr 17eg ganrif (ac mae'n ymddangos bod trawstiau'r to o'r cyfnod hwnnw). Mae'r rhain yn adeiladau deniadol gyda grisiau allanol tua'r gogledd. Mae Tŷ Bwtri i'w weld yn y darlun gan Buck o 1742 yn yr un ffurf ag y gwelir ef yn awr.

5.2.13 Tua'r dwyrain o'r abaty mae'r adeiladau fferm yn cynnwys ysgubor o ganol neu ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, wedi'i hestyn yn ddiweddarach, a beudy o ran olaf yr ail ganrif ar bymtheg. Erbyn hyn mae'r beudy mewn cyflwr gwael, gyda'r to i'w weld yn ddiffygiol tua'r goledd.

5.2.14 Tua'r dwyrain mae adeiladau fferm cymharol fodern, yn cynnwys sied wair nodweddiadol.

5.3 Deunyddiau a Manylion.

5.3.1 Mae'r abaty a'r adeiladau cysylltiedig wedi'u hadeiladu o'r dolerit a'r llechen leol, gyda manylion mewn tywodfaen Egryn (sy'n garreg rywiog), o chwarel ger Tal-y-bont.[18] Tua'r de o Dŷ Fanner, mae'n ymddangos bod yr adeiladau'n cynnwys cyfran o garreg silt a charreg laid yn y rwbel, sy'n adlewyrchu amrywiaeth y ddaeareg leol.

5.3.2 Mae to Tŷ Faner, yr adeiladau cyfagos a'r ysgubor oll o lechi diweddarach, wedi'u hollti'n denau ac mewn rhesi o faint cyfartal. Ar do'r beudy, gellir gweld llechi cynharach, o faint llai ac mewn rhesi sy'n lleihau mewn maint wrth fynd at i fyny,ond mae'r to mewn cyflwr gwael erbyn hyn.

5.3.3 Mae'r abaty wedi cadw elfennau pwysig o'i manylion gwreiddiol (gweler 5.2), yn cynnwys tywodfaen wedi'i gerfio yn y ffenestri, yr arcêd gogleddol, sedilia, cilfachau beddi a'r drws deheuol.

21 Tŷ Bwtri a Hen Dŷ (2022).

22 Tŷ Fanner (2022).

[18] https://museum.wales/media/136/october_2003.pdf

5.3.4 Mae'r ffenestri yn y llawr daear yn wyneb dwyreiniol Tŷ Fannero bren mylinog a gallant fod o'r 17eg ganrif. Mae'n debyg bod y drws cyfagos o'r un adeg, gydag estyll llydan a ffrâm yn sefyll ymhellach na'r drws a gyda phroffil iddi.

5.3.5 Tua'r dwyrain, mae adeiladau fferm cymharol fodern, yn cynnwys y sied wair gyda'i tho bwa, y cyfan mewn haearn rhychog.

5.4 Ffiniau

5.4.1 Ar y cyfan mae'r ffiniau yn yr ardal gadwraeth wedi'u diffinio mewn ffordd fodern, er y gellir adnabod trefn y ffiniau sydd yng ngwaith mapio'r Nannau o 1794.19

5.4.2 Mae gwrychoedd oddi amgylch yr ardal sy'n cael ei diogelu, a gellir gweld y rheiny mewn ffotograffau a dynnwyd o'r awyr yn 1948.

5.4.3 Mae'n ymddangos bod y muriau tua'r de o Dŷ Bwtri yn fodern, ond yn cyfrannu at y gosodiad.

5.5 Nodweddion, Manylebau ac Arwynebau Eraill.

5.5.1 Does dim arwynebau cynnar sylweddol yn yr ardal gadwraeth (oni bai bod rhywfaint yn bodoli yn yr iard fferm tua'r dwyrain, nad oedd modd cael mynediad iddi).

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

6.1.1 Mae'r asedau hanesyddol dynodedig (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) i'w gweld yn yr ardal gadwraeth (gweler Ffigwr 29):

6.1.2 Henebion Cofrestredig

- *ME001 Abaty Cymer*

6.1.3 Adeiladau Rhestredig:

23 Y beudy o'r caeadle (2022).

24 Golygfa gyffredinol yn edrych tua'r gorllewi. (2022).

[19] Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 923 (Evans, R & Davidson A), Cymer, Gwynedd Drafft o Arfarniad Ardal Gadwraeth, 2011, tud.9.

- *4738 Abaty Cymer*
- *4739 Tŷ Fanner*
- *4740 Adeiladau oedd gynt yn ddomestig, tua'r de o Dŷ Fanner*
- *16164 Ysgubor yn Abaty Cymer*
- *16165 Beudy yn Abaty Cymer*

6.1.4 Yn agos at yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r rhai a ganlyn yng ngosodiad uniongyrchol yr ardal gadwraeth:

- *ME248 Crug Fferm Pentre*
- *ME266 Anheddiad gydag Amddiffynfeydd, Coed Pen-y-Bryn*
- *ME006 Pont Llanelltyd (4741 Pont Llanelltyd)*
- *ME150 Castell Cymer (4742 Castell Cymer)*
- *16146 Tan Llan*
- *16147 Tŷ Coets a Bloc Stablau yn Nhan Llan*
- *16145 Tynllan*
- *4737 Eglwys y Plwyf, Sant Illtyd*
- *16144 Bryn*
- *16148 Y Tollty*
- *16149 Awelon*
- *16150 Yr Hen Swyddfa Bost*
- *16151 Pont Wnion*
- *5239 Tyn-y-Celyn*
- *21619 Hen Efail*

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.

7.1.1 Yn dilyn y gwerthusiad, argymhellir estyn y ffin i ddiogelu beth sydd efallai'n fynwent a pherllan fynachaidd (tua'r gogledd a'r dwyrain).

7.1.2 Gweler y Cynllun Rheolaeth a Ffigwr 35.

8.0 Hanes Cudd (dichonoldeb archeolegol)

8.1.1 Mae awgrym sylweddol bod archeoleg gysylltiedig wedi goroesi, yn bennaf ynglŷn â'r abaty canoloesol. Mae posibilrwydd cryf bod olion wedi'u claddu yn y brif rodfa, oddi amgylch y fferm tua'r dwyrain, Tŷ Fanner tua'r gorllewin ac yn yr ardal yn uniongyrchol oddi amgylch y cyrion, yn ogystal â rhwng y safle a Phont Llanelltyd

25 Pont Llanelltyd (2022).

26 Abaty Cymer a'r Maes Carafanau o'r de. Tua 1950. (Dolgellau.uk).

8.1.2 Gwnaethpwyd rhywfaint o waith archeolegol (briff gwylio) yn ystod adeiladau bloc golchi newydd ym mhen y ffordd fynediad yn 2009.[20]

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

9.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal o Gadwraeth Arbennig (ACA).

9.1.1 Mae SoDdGA Aber Mawddach yn gorgyffwrdd ymyl gorllewinol yr ardal gadwraeth. Cafodd ei ddynodi'n bennaf oherwydd ei nodweddion biolegol.[21]

9.1.2 Yn dilyn ffin yr ardal gadwraeth, gan orgyffwrdd rhan orllewinol yr ardal gadwraeth, mae ardal sydd hefyd wedi'i dynodi'n ardal o gadwraeth arbennig, sef Ardal o Gadwraeth Arbennig Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd.

9.1.3 Mae Ardal o Gadwraeth Arbennig yn safle wedi'i dynodi o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o rwydwaith Natura 2000. Mae safleoedd Natura o bwysigrwydd rhyngwladol I ddiogelu amrediad o gynefinoedd a rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion bregus. Mae Ardaloedd o Gadwraeth Arbennig yn cynnwys cynefinoedd a Rhywogaethau daearol a morol (heblaw am adar sydd wedi'u diogelu ar wahân) ac wedi'u rhestru yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

9.2 Gorchmynion Cadw Coed

9.2.1 Does dim gorchmynion cadw coed yn yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd (heblaw am y diogelwch a roir gan statws ardal gadwraeth).

9.3 Tirwedd Hanesyddol Ddynodedig

9.3.1 Mae Abaty Cymer o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Bro Dolgellau, HLW (Gw) 13.[22]

27 O Bont Llanelltyd tuag at Abaty Cymer (2022).

28 Arwyddion a dehongli ar y tŵr (2022).

[20]Jones, M, Vanner Maes Carafanau, Briff Gwylio Archeolegol, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, (2009) cyf. 836.
[21]https://naturalresources.wales/media/665591/SSSI_1628_Citation_EN0010014.pdf
[22]http://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=en&id=HLW%20(Gw)%2013



Listed Buildings and Scheduled Monuments
1:2000 @ A4

10.0 Bioamrywiaeth

10.1 Coed

10.1.1 Gweler 9.2 ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

10.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiad o goed /ardaloedd o goed allweddol yn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

10.2 Rhywogaethau a Warchodir.

10.2.1 Mae SoDdGA Aber Mawddach ac ACA Afon Eden - Cors Goch Trawsfynydd yn gorgyffwrdd ymyl gorllewinol yr ardal gadwraeth. Fe ddynodwyd yr ACA gan gyfeirio'n benodol at y Dyfrgi, Misglen Dŵr Croyw Perlog a'r Eog.

10.2.2 Mae'n hysbys bod amrediad eang o rywogaethau a warchodir yn bresennol ar hyd Afon Mawddach i Aber Mawddach, sy'n cynnwys cennau, llysiau'r afu a mwsoglau prin ac amrediad eang o loÿnnod byw. Mae'r rhywogaethau eraill sy'n werth eu nodi'n cynnwys;

- Gwybedog Brith
- Telor y Coed
- Tingoch
- Pibydd Coesgoch
- Gïach Cyffredin
- Cyffylog
- Bronwen y Dŵr
- Dyfrgi
- Misglen Dŵr Croyw Perlog
- Eog



Other Designations
1:2000 @ A4

31 Dynodiadau Eraill (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

YR AIL RAN – CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH.

1.0 Crynodeb o ddadansoddiad CGCB

CRYFDERAU

- Yr holl adeiladau allweddol wedi'u hamddiffyn trwy eu rhestru
- Y safle wedi'i amddiffyn gan statws Heneb Restredig
- Prif eglwys yr abaty yng ngofal Cadw
- Cysylltiad ar droed â Phont Llanelltyd
- Y gosodiad yn y dirwedd, rhwng bryniau ac Afon Mawddach
- Agosrwydd at Ddolgellau ac Aber Mawddach

GWENDIDAU

- Y maes carafanau'n ymwthiol yn yr olygfa
- Cyflwr y beudy
- Gosodiad Tŷ Fanner a beth oedd gynt yn llety i westeion gerllaw
- Terfynau gwael a rhywfaint o arwynebau gwael



CYFLEOEDD

- Cysylltiadau cerdded a dehongli rhwng Llanelltyd, Pont Llanelltyd ac Abaty Cymer
- Cyfleu rôl yr Abaty yn nhreftadaeth amaethyddol a diwylliannol yr ardal
- Gwella proffil yr Ardal Gadwraeth a'r ymwybyddiaeth ohoni
- Gwella bioamrywiaeth oddi amgylch y safle
- Gwella rheolaeth ar ddatblygiadau yn yr ardal gadwraeth ac o'i hamgylch
- Gwella arwynebau yn yr ardal gadwraeth

BYGYTHIADAU

- Y maes carafanau'n parhau i ddatblygu
- Dim 'staffio' ar y safle, gan ei adael yn agored i niwed os na fydd pobl yn byw gerllaw
- Cyflwr y beudy (ac efallai'r ysgubor) tua'r dwyrain o'r safle
- Pwysau am newid yn y dyfodol, efallai i ardaloedd y fferm tua'r dwyrain o'r safle.

2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Abaty Cymer ei hun yn cael ei gynnal yn dda gan Cadw fel gwarchodwyr y safle.

2.1.2 Er bod gwarchodaeth Cadw ddim ond yn estyn cyn belled ag eglwys yr abaty a beth oedd gynt yn glwysty, mae adeiladau cyfagos wedi'u gwarchod trwy gael eu rhestru. Yr heneb gofrestredig yw eglwys yr abaty, yn cynnwys yr ardal tua'r dwyrain y cymerir ei fod yn cynnwys y groesfan anghyflawn a'r côr.

2.1.3 Mae'r safle carafanau'n cael ei gynnal yn dda ond er hynny'n cael effaith negyddol ar osodiad yr abaty.

2.1.4 Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r adeiladau'n cael eu defnyddio mewn ffordd fuddiol, ond bod y beudy (sy'n rhestredig graddfa II) yn dechrau dirywio ac angen gwaith cadw a thrwsio arno.

2.1.5 Mae rhai materion sy'n cael effaith niweidiol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Maen nhw'n cynnwys:

- Erydu gosodiad adfeilion yr Abaty.
- Cyflwr rhai o'r adeiladau.

2.1.6 Dyma rai enghreifftiau penodol:

- Newid y maes carafanau o fod yn un i garafanau teithiol yn yr 1950au (gweler ffig. 26) i fod yn barc gyda niferoedd sylweddol o garafanau statig (gweler ffig. 32) a datblygiadau cysylltiedig.
- Yr effaith o ganlyniad ar olygfeydd tuag at ac oddi wrth yr abaty.
- Rhai o'r arwynebau mewn cyswllt uniongyrchol â'r ardal restredig.
- Cyflwr y beudy, sy'n ymddangos ei fod yn dirywio.

2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Mae'r beudy (graddfa II) ar hyn o bryd yn dirywio, yn enwedig y to tua'r gogledd.

32 Mae'r maes carafanau yn effeithio ar osodiad adfeilion yr Abaty (2022)

33 Mae cyflwr y beudy rhestredig, i'r dwyrain o'r caeadle yn peri pryder. (2022)

2.3 Golwg Gyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

2.3.1 Gwnaethpwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Ardal Gadwraeth Abaty Cymer. Defnyddir hwn i ddangos y problemau, a hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Wedyn bydd hwnnw'n darparu gwybodaeth ar gyfer creu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

2.3.2 Yn y dadansoddiad CGCB, gwelir nifer o bwyntiau allweddol ar gyfer gweithredu, er mwyn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rheiny'n cynnwys:

- Ceisio gwarchod y gosodiad yn y dirwedd gyfagos.
- Annog pobl i gerdded a chreu cysylltiadau dehongli rhwng Abaty Cymer, Pont Llanelltyd a'r pentref, yn enwedig Eglwys Sant Illtyd.
- Defnyddio mwy ar y cysylltiadau gyda Llwybr Mawddach ar hyd Afon Ceunant.

2.3.3 Mae nifer o wendidau a bygythiadau yn y CGCB, a ddangosir fel camau gweithredu, sy'n cynnwys:

- Ceisio cael ymgysylltiad cadarnhaol i sicrhau dyfodol y beudy.
- Sicrhau gwarchod mannau gleision a golygfeydd allweddol trwy ymgysylltu'n lleol, wrth ystyried ceisiadau i ddatblygu a thrwy estyn ffin yr ardal gadwraeth.
- Rheolaeth well dros ddatblygiadau ar yr ymylon ac i lenwi bylchau, hyrwyddo gwell dyluniad ac atal datblygiad lle bo'n amhriodol.

3.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

3.1 Newidiadau i Ffiniau

3.1.1 Yn dilyn y gwerthusiad, argymhellir estyn y ffin er mwyngwarchod y gosodiad a'r fynwent a pherllan fynachaidd posibl (tua'r gogledd a'r dwyrain). *Gweler Ffigwr 35.*

34 Ychydig o ddehongli sydd ar y safle a gellid ei wella gryn dipyn (2022).

3.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Mae'r cefndir o fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen ragarweiniol **Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK**. Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi polisïau a chanllawiau cyffredinol.

3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Gellid gwella ei diddordeb arbennig yn sylweddol trwy roi sylw i rai o'r materion (gweler 2.0), a gwendidau a bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth. Gellid gwneud hynny trwy estyn pwerau neu ganllawiau cynllunio.

3.3.2 Mae'r problemau a'r cyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Ystyried darpariaeth ddehongli a gwell cysylltedd gyda'r pentref, Pont Llanelltyd ac Eglwys Sant Illtyd. Gellid gosod darpariaeth ddehongli mewn ffordd sensitif ar hyd y llwybr.
- Ceisio rheoli datblygiad o ansawdd amhriodol ar gyrion yr ardal gadwraeth (y maes carafanau a newid yn y fferm yn benodol).
- Estyn y ffin i warchod y gosodiad mynachaidd a'r gosodiad yn y dirwedd ehangach.
- Annog defnyddio mathau mwy priodol o arwynebau a ffiniau.

3.3.3 Gan ddefnyddio'r arfau uchod a thrwy ymgynghori (gweler isod), cynyddu ymwybyddiaeth a phroffil yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygiad a newid priodol. Hynny'n cynnwys:

- Ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a chymuned Cymer a Llanelltyd.
- Cynyddu ymwybyddiaeth a (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) sgiliau contractwyr a chrefftwyr lleol.

3.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

3.4.1 Mae dogfen ar gael sy'n darparu canllawiau ar y ffordd iawn o wneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau fydd eu hangen yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, sef: **Cyngor Ynghylch Camau**

Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK

3.4.2 Hyd yn oed fel heneb restredig o sensitifrwydd sylweddol, mae gan Gymer rai cyfleoedd ar gyfer micro-gynhyrchu pŵer. Gallai'r rheiny gynnwys paneli haul wedi'u lleoli'n anymwthgar ar adeiladau fferm mwy modern, neu leoli'r paneli fwy o hirbell (gan gadw mewn cof olygfeydd allweddol a golygfeydd o lefel uchel).

3.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau i gynhyrchu ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.

3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed yn hollbwysig i fioamrywiaeth ac i bwysigrwydd esthetig. Does dim coed gyda gorchmynion cadw coed arnynt, ond mae coetir sydd wedi'i restru ar y rhestr coetiroedd hynafol. Dangosir coed eraill sy'n bwysig yn yr ardal gadwraeth (gweler 4.3).

3.5.2 Mae cyfle sylweddol i wella bioamrywiaeth yn yr ardal gadwraeth, a dyma enghreifftiau o beth ellid ei wneud:

- Gosod blychau i adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
- Gellir gwella cynefinoedd bywyd gwyllt trwy ddefnydd priodol o doeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill gydag estyniadau neu adeiladau newydd, lle bo'n briodol i'r dreftadaeth adeiledig.
- Rheoli a gwella gwrychoedd ac estyn gwrychoedd, yn enwedig yng Nghymer.
- Gadael pren marw sy'n sefyll a chreu tomenni o bren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall (lle nad yw'n cael effaith negyddol ar osodiad yr Abaty).

3.5.3 Sicrhau bod datblygiad yn digwydd ar sail gwybodaeth am, ac mewn cydymdeimlad gyda chymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, a'i fod yn cymryd i ystyriaeth dystiolaeth arall o gymeriad hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd yr ardal oddi amgylch.

3.5.4 Sicrhau bod cynigion datblygu'n gwella'r diddordeb bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

3.5.5 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithrediad prosiectau i wella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd sydd o werth ar gyfer cadwraeth natur.

3.5.6 Annog bod datblygiad yn cynnwys mesurau i gyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

3.5.7 Gwella isadeiledd gwyrdd mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal, heb gael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth yr ardal neu gymeriad yr ardal gadwraeth.

4.0 Ymgynghoriad

4.1.1 Fe ymgynghorwyd fel a ganlyn ar y Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth:

- Gyda Chyngor Cymuned Llanelltyd ym mis Tachwedd 2021.



Proposed Extension to Conservation Area

 Dynodiadau Eraill (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Dyma'r prif ffynonellau o wybodaeth wedi'i chyhoeddi (a heb ei chyhoeddi) a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Arfarniad hwn:

Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. Ceir mynediad trwy: https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Dolgellau-%20Understanding%20Urban%20Character_0.pdf

Cooper, R., *Abbeys and Priories of Wales* (Abertawe, 1992) tud. 53-4

Coppack, Glynn, *The White Monks: the Cistercians in Britain 1128-1540* (Stroud, 1998) tud. 97-98

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan Gymdeithas Archeolegol Cymru yn 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester)

Gwyn, D *Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry* (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru 2015).

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 923 (Evans, R & Davidson A),*Cymer, Drafft o Arfarniad Ardal Gadwraeth Gwynedd, 2011.*

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 537 Historic Landscape Characterisation- Vale of Dolgellau. 2005.

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, Llundain)

Hughes H & North H. L. '*The Old Churches of Snowdonia'* (1924).

Jones, H. L., '*Cymmer Abbey Merionethshire*', Archaeologia Cambrensis, 1:4 (1846), tud. 445-460

Jones, M (2009) Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, adroddiad rhif 826 Vanner Caravan Park, Archaeological Watching Brief, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain)

Lynch, Frances, *A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd*, Gwasg Ei Mawrhydi, 1995.

Pennant, T. (1781), *A Tour in Wales (Llundain*) (1773-76), Ceir mynediad trwy: https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (Llundain).

Smith, B. & Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales* (Gwasg Ei Mawrhydi) 1961.

Smith, P, (1988), *Houses of the Welsh Countryside,* Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Williams, David, H. (1981) *The Cistercians in West Wales: 1 Cymer Abbey 1198-1536/7*, Archaeologia Cambrensis, 130 tud.36-58. Ceir mynediad trwy:

https://journals.library.wales/view/4718179/4748278/#?m=81

Williams, David H., *The Welsh Cistercians* (Leominster, 2001)

Amrywiol (1921) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, volume 1, County of Merioneth*. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.